



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# Canllaw Ymarfer Da

## **Canllaw Technegol: Eithriadau gweithgarwch perygl llifogydd**

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2016

### **CYD 221**

Perchennog y Ddogfen: Tim Strategaeth Risg Llifogydd

## Hanes y Fersiwn:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1.0	Ebr-2016	Creu dogfen
2.0	Ionawr-2017	Cyfeirio diweddarwyd i ddeddfwriaeth

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2018

## Nodyn

Mae hawlfraint yn berthnasol i holl Nodiadau Cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylech fod yn ymwybodol fod defnyddio unrhyw ddeunydd o fewn y ddogfen hon yn digwydd yn unol â Datganiad Hawlfraint ac Ymwadiad / Hysbysiad Safonol CNC. Gellir cael copi o hwn gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth yn [timynediadatwybodaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:timynediadatwybodaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Bydd aildefnyddio'r wybodaeth hon yn cael ei bennu gan Reoliadau Aildefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005 (Re-use of Public Sector Information Regulations 2005), ac unwaith eto gellir cael manylion gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

## Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP  
0300 065 3000 (Llun-Gwener 8am-6pm)  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir ailgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu i chi'r amodau y bydd angen eu bodloni os dymunwch gofrestru am esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2016.

Os bydd unrhyw rai o'ch gwaith arfaethedig yn fwy na'r amodau y manylwyd arnynt yn yr esemptiad perthnasol, neu ddim yn bodloni'r amodau hyn, bydd angen i chi wneud cais am Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd pwrpasol.

Mae'r ddogfen 'CYD 220:Canllaw technegol am ddiffiniadau gweithgarwch perygl llifogydd' ar gael o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn eich helpu i ddehongli ystyr unrhyw dermau yn y canllaw hwn y gallech fod yn ansicr yn eu cylch.

Defnyddiwch y cynnwys isod i neidio i'r esemptiad penodol y mae gennych ddi-ddordeb ynddo.

## Cynnwys

Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 2: Codi croesfan gwasanaeth cebl trydan dros brif afon.....	4
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 3: Croesfannau gwasanaeth o dan wely prif afon.....	6
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 4: Croesfannau gwasanaeth dros brif afon sydd ynghlwm wrth y tu allan i adeileddau presennol.....	8
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 5: Pontydd troed.....	10
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 8: Cynnal a chadw amddiffynfeydd môr ac afon sydd wedi'u codi .....	12
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 9: Cynnal a chadw adeileddau o fewn sianel prif afon.....	14
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 10: Cilfachau yfed .....	16
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 11: Llwyfannau mynediad.....	18
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 12: Gollyngfeydd .....	20
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 13: Trwsio ac amddiffyn glannau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol .....	22
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 14: Atgyweirio glannau sydd wedi lithro neu erydu.....	24
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 15: Adeileddau cynefin y sianel wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol.....	26
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 16: Rafftau ar gyfer arolygiadau .....	28
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 17: Glanhau graean ar gyfer gwelyau silio pysgod .....	30
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 19: Dyfeisiau llwybr llyswennod .....	32
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 20: Rhiciau llwybr pysgod .....	34
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 25: Cloddio pyllau bas a nodweddion gwlyptir bas.....	36
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 27: Adeileddau lloches bywyd gwyllt ar lannau afonydd.....	38
Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 28: Gwaith gwella traciau a llwybrau.....	40

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 2: Codi croesfan gwasanaeth cebl trydan dros brif afon

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Codi croesfan gwasanaeth cebl trydan dros brif afon.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** gosod cebl gwasanaeth trydan a pholion cysylltiedig dros brif afon.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:**

- Gosod cebl ar wyneb y gwely afon.
- Gosod pipell yn nhrawstoriad sianel prif afon.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.

### Amodau dylunio

- Mae'r groesfan gwasanaeth o fewn 10° perpendicwlar i gyfeiriad llif y brif afon;
- Mae marcwyr perygl parhaol wedi'u codi ar ddwy lan y brif afon;
- Nid yw'r gwaith yn aflonyddu gwely a glannau'r brif afon.
- Mae cliriadau fertigol a llorweddol y groesfan gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofynion isod:

Foltedd (kV)	Cliriad fertigol <sup>(1)</sup> (metrau)	Cliriad llorweddol <sup>(2)</sup> (metrau)
275	15	15
400	15	15
132	12	15
66	12	15
33	9	10
11	9	10
6.6	9	10
4.15	6	9

(<sup>1</sup>) Cliriad fertigol uwchben y lan neu lefel brig llifogydd ar y lan

(<sup>2</sup>) Cliriad llorweddol unrhyw dŵr neu gynhalbost o frig yr ochr tua'r tir ar y lan neu lan llifogydd y brif afon.

### Amodau amser a dull

- Mae'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith yn cael ei symud o'r gorlifdir.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 3: Croesfannau gwasanaeth o dan wely prif afon

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Codi croesfan gwasanaeth o dan wely prif afon trwy ddrilio cyfeiriadol heb gynnwys techneg toriad agored.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gosod croesfan pibell neu bibell gwasanaeth trwy ddrilio cyfeiriadol o dan brif afon.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Gosod croesfan pibell/cebl yng ngwely prif afon trwy gloddio ffos agored.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r groesfan gwasanaeth yn pasio trwy unrhyw lan, cwlfer, adeiledd amddiffyn rhag llifogydd neu waith rheoli afon ar y brif afon neu drwy unrhyw amddiffynfa môr.
- Mae'r groesfan gwasanaeth 50 metr neu fwy i fyny'r afon o unrhyw gronni neu sianel a godwyd yn artiffisial.

### Amodau dylunio

- Mae'r groesfan gwasanaeth o fewn 10° perpendicwlar i gyfeiriad llif y brif afon.
- Cedwir pellter:
  - Dim llai na 1.5 metr o wely'r brif afon i frig y groesfan gwasanaeth; ac
  - Ar yr un uchder uwchben lefel y môr rhwng pwyntiau sydd 5 metr y tu hwnt i frig pob glan o'r brif afon.
- Mae'r pellter o'r pyllau lansio a derbyn i ochr tua'r tir ar bob glan o'r brif afon:
  - 8 metr neu fwy yn achos prif afon heb fod yn afon lanw; a
  - 16 metr neu fwy yn achos prif afon lanw.
- Mae marcwyr perygl parhaol wedi'u codi ar ddwy lan y brif afon.

## Amodau amser a dull

- Mae'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith yn cael ei symud o'r gorlifdir.
- Nid yw'r gwaith yn aflonyddu gwely a glannau'r brif afon.

## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

Efallai y bydd adegau pan na fydd drilio cyfeiriadol yn llwyddiannus. Er enghraifft, oherwydd amodau andwyol ar y ddaear. Lle gallai hyn fod yn bryder, cynghorir chi i drafod eich cynigion ymlaen llaw â'ch swyddfa CNC leol. Efallai y bydd dulliau gosod amgen angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd, a allai arwain at oedi i'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 4: Croesfannau gwasanaeth dros brif afon sydd ynghlwm wrth y tu allan i adeileddau presennol

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Croesfannau gwasanaeth dros brif afon sy'n gysylltiedig â'r tu allan i adeileddau sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Cysylltu pibell at ddec neu barapet solid pont uwchben agoriadau bwa adeiledd sydd eisoes yn bodoli.

### Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:

- Codi adeiledd newydd i gynnal croesfan gwasanaeth.
- Cysylltu pibell ar draws agoriad gwirioneddol o dan bont.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r groesfan gwasanaeth yn pasio trwy unrhyw lan, cwlfer, adeiledd amddiffyn rhag llifogydd neu waith rheoli afon ar y brif afon neu drwy unrhyw amddiffynfa môr.

### Amodau dylunio

- Nid yw'r groesfan gwasanaeth yn estyn allan mwy nag 1 metr yn llorweddol o'r adeiledd.
- Mae'r groesfan gwasanaeth yn dilyn proffil croestoriad yr adeiledd sydd eisoes yn bodoli i'r brif afon mewn llif normal a llifogydd.
- Mae marcwyr perygl parhaol wedi'u codi ar ddwy lan y brif afon.

### Amodau amser a dull

- Mae'r rheoleiddiwr wedi anfon hysbysiad at y tiffeddiannwr bod yr adeiledd wedi'i nodi i gael ei dynnu neu ei addasu er mwyn cyflawni'r mesurau a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol a ddyluniwyd i symud corff dŵr i statws da yn unol ag erthygl 4 y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.



## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Yr ochr o'r adeiledd bydd y groesfan gwasanaeth yn gysylltiedig ag ef. Lle bo'n bosibl, cynghorwn y dylai croesfan gwasanaeth gael ei gosod i lawr yr afon i leihau'r risg y bydd unrhyw falurion sy'n arnofio gyda'r llif yn difrodi'r groesfan gwasanaeth.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 5: Pontydd troed

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu pontydd troed.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Adeiladu pont droed.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Adeiladu pont fynediad i gerbydau.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 500m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gwaith yn effeithio ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.
- Ni chynhelir unrhyw waith o fewn 100 metr i unrhyw adeilad heb fod yn amaethyddol ar y gorlifdir neu adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.

### Amodau dylunio

- Mae hyd y bont droed o frig un glan o'r brif afon i frig y lan arall yn 8 metr neu lai.
- Nid oes gan y bont droed bostyn cynnal yn y cwrs dŵr, lled y dec yw 1.5 metr neu lai ac uchder y bwrdd cicio yw 100mm neu lai.
- Nid yw'r bont droed yn lleihau ardal groestoriadol y sianel yn y brif afon.
- Mae hyd y lan y mae'r adeiladu yn aflonyddu yn ymestyn i 1 metr neu lai bob ochr i'r bont droed;
- Mae'r bont droed wedi'i chysylltu'n ddiogel i'r sylfeini ac mae'r rhain 1 metr neu fwy i ffwrdd o ymyl y lan;
- Nid yw adeiladu'r bont droed angen atgyfnerthu'r gwely neu'r glannau;
- Mae ramp a stepiau'r bont droed yn ymestyn 4 metr neu lai o ochr tua'r tir y lan;
- Mae'r pwynt isaf o dan y bont o leiaf 600mm yn uwch na brig dwy lan y brif afon;
- Nid yw'r adeiladu yn newid uchder y tir ar y ddau ben i'r bont droed;
- Mae unrhyw barapet y bont droed o adeiladwaith agored sy'n cynnwys:
  - Pyst a rheiliau,

- Pyst a ffens rhwyll weiren â bylchau 100mm neu fwy, neu
- Pyst a llinynnau gwifren.

### Amodau amser a dull

- Nid yw'r adeiladu'n effeithio ar wely'r brif afon.
- Mae'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith yn cael ei symud o'r gorlifdir.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 8: Cynnal a chadw amddiffynfeydd môr ac afon sydd wedi'u codi

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Cynnal a chadw amddiffynfeydd môr ac afon sydd wedi'u codi.

### Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:

- Codi mannau isel mewn arglawdd neu glawdd amddiffynnol sydd eisoes yn bodoli.
- Cynnal amddiffynfa a godwyd sydd eisoes yn bodoli.

### Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:

- Codi amddiffynfa newydd.
- Ail-alinio amddiffynfa sydd eisoes yn bodoli.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.

### Amodau dylunio

- Mae'r gwaith cynnal a chadw'n defnyddio deunyddiau o'r un math â'r rheiny sy'n bresennol yn yr amddiffynfeydd a godwyd ac nid ydynt yn addasu siâp yr amddiffynfeydd hynny nag uchder cyffredinol yr amddiffyniad mae'r amddiffynfeydd hynny'n darparu.
- Mae'r amddiffynfeydd a godwyd yn cyflawni'r swyddogaethau y cawsant eu dylunio'n wreiddiol ar eu cyfer.

### Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith yn aflonyddu gwely neu, hyd at lefel y ddaear, glannau'r brif afon.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 9: Cynnal a chadw adeileddau o fewn sianel prif afon

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Cynnal a chadw adeileddau o fewn sianel prif afon ac eithrio amddiffynfeydd afon neu fôr sydd wedi'u codi.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Cynnal adeiledd cored sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Gosod adeiledd newydd yn yr afon

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.

### Amodau dylunio

- Nid yw'r gwaith cynnal a chadw yn newid unrhyw ddimensiynau'r adeiledd.
- Mae'r adeiledd yn cyflawni'r swyddogaethau y cawsant eu dylunio'n wreiddiol ar eu cyfer.
- Mae'r gwaith cynnal a chadw'n defnyddio deunyddiau o'r un math â'r rheiny sy'n bresennol yn yr adeiledd.

### Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith cynnal a chadw'n digwydd rhwng 15 Mawrth a 15 Mehefin (gan gynnwys y dyddiadau hyn) mewn unrhyw flwyddyn.
- Ar brif afon sy'n afon salmonid ddynodedig, nid yw'r gwaith cynnal a chadw'n digwydd rhwng 1 Hydref a 14 Mawrth (gan gynnwys y dyddiadau hyn) mewn unrhyw flwyddyn. Gallwch weld y map salmonid trwy'r ddolen ganlynol:  
<https://naturalresources.wales/media/5634/flood-epr-salmonids.pdf>

## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

# Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 10: Cilfachau yfed

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu cilfach yfed ar lan prif afon.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Creu ardal yfed ar gyfer stoc nad yw'n ymwthio y tu hwnt i broffil y lan.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Creu unrhyw adeiledd sy'n croesi'r sianel

## Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

## Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 500m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gilfach wedi'i lleoli o fewn 100 metr i unrhyw adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.
- Nid yw'r gwaith yn digwydd mewn math o gynefin sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno, neu o fewn 500 metr i fyny'r afon o gynefin o'r fath.

## Amodau dylunio

- Mae'n rhaid i ffens pyst a rheiliau amgylchynu'r gilfach, ac mae'n rhaid iddi ymwthio i'r brif afon, neu drosti, dim mwy nag 1.2 metr neu 10% o led y brif afon, p'un bynnag yw'r lleiaf.
- Mae gan sylfaen y gilfach arwyneb o goncrid, carreg neu rwbel anadweithiol.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol ar unrhyw gwlfert, amddiffynfa bell, gwaith rheoli afon, amddiffynfa môr neu unrhyw wal neu arglawdd a godwyd sy'n rhan o lan y brif afon.
- Mae ffens ar weddill y lan er mwyn atal difrod.

## Amodau amser a dull

- Mae'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith yn cael ei symud o'r gorfifdir.



## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 11: Llwyfannau mynediad

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu llwyfannau mynediad dros lan prif afon sy'n ymwthio i mewn i brif afon neu drosti.

### Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:

- Codi llwyfan bysgota.
- Creu llwyfan i ganiatáu mynediad at ymyl y dŵr.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Angori ysgraffau.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 500m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r platfform wedi'i leoli o fewn 50 metr i unrhyw adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.
- Nid yw'r gwaith yn digwydd mewn math o gynefin sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno, neu o fewn 500 metr i fyny'r afon o gynefin o'r fath.

### Amodau dylunio

- Mae'r llwyfan yn ymwthio 1.2m neu lai i mewn i'r brif afon ac yn meddiannu 2m neu lai ar hyd y lan.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol ar unrhyw gwlfert, amddiffynfa bell, gwaith rheoli afon, amddiffynfa môr neu unrhyw wal neu arglawdd a godwyd sy'n rhan o lan y brif afon.
- Mae'r rhan o'r llwyfan sy'n ymwthio dros y sianel wedi'i hadeiladu fel dec fflat, heb unrhyw fewnlenwad solid o dan y llwyfan, wedi'i gynnal ar bileri neu byst 300mm o led neu lai.
- Mae unrhyw risiau a dorwyd i mewn i'r lan wedi'u cynnal gan wyneb pren ar ran fertigol y gris.

## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 12: Gollyngfeydd

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu pibellau gollwng bychain a chefnfuriau cynnal i brif afonydd.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal** Creu cefnfur bach.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Creu unrhyw adeiledd sy'n gorgyffwrdd â phroffil croestoriad y sianel sydd eisoes yn bodoli.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r cefnfur wedi'i leoli o fewn 50 metr i unrhyw adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.
- Nid yw'r gwaith yn digwydd mewn math o gynefin sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno, neu o fewn 200 metr i fyny'r afon o gynefin o'r fath.
- Nid yw'r cefnfur o fewn 8 metr i adeiledd amddiffyn rhag llifogydd neu waith rheoli afon;
- Nid yw'r bibell ollwng yn pasio trwy unrhyw gwlfert, amddiffynfa bell, gwaith rheoli afon, amddiffynfa môr neu unrhyw wal neu arglawdd a godwyd sy'n rhan o lan y brif afon, neu o dan y rhain.
- Nid yw unrhyw bibell sy'n rhyddhau trwy'r cefnfur yn pasio o fewn 8 metr i adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.

### Amodau dylunio

- Yn achos cefnfur i brif afon heb fod yn afon lanw, mae'r bibell ollwng wedi'i halinio i ongl rhwng 30° a 60° i gyfeiriad llif yr afon.
- Mae diamedr y bibell ollwng yn llai na 300mm.

- Nid yw uchder y cefnurfur yn fwy nag 1.5 metr neu'n fwy na 75% o uchder y lan, p'un bynnag yw'r lleiaf.
- Mae cyfanswm hyd y lan yr effeithir arni wrth adeiladu'r cefnurfur yn 1.5 metr neu lai;
- Nid yw'r cefnurfur, y waliau asgell na'r palmant yn ymwithio y tu hwnt i linell bresennol y lan cyn cyflawni gwaith;

### Amodau amser a dull

- Mae'n rhaid i'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir;

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cynghori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 13: Trwsio ac amddiffyn glannau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Trwsio ac amddiffyn glannau prif afonydd gan ddefnyddio deunyddiau naturiol.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Cyflawni gwaith trwsio gan ddefnyddio sbils neu roliau rhisgl coconyt.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Cyflawni gwaith gan ddefnyddio pyst llen, concrit, sment neu waith bagiau concrit, blociau cerrig, gwaith bric, cewyll cerrig neu geotectiliau heb fod yn fiogdiraddadwy.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gwaith hwn yn digwydd o fewn 50 metr i lan sydd wedi cael ei hatgyfnerthu gan ddefnyddio technegau peirianeg meddal neu galed.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.

### Amodau dylunio

- Nid yw hyd y lan y mae'r gwaith yn effeithio arni'n fwy na 10 metr.
- Nid yw'r gwaith yn cynnwys defnyddio pyst llen, concrit, sment neu waith bagiau concrit, gwaith bric, cewyll cerrig neu ddeunyddiau heb fod yn fiogdiraddadwy.
- Nid yw'r gwaith yn ymwthio i mewn i sianel y brif afon y tu hwnt i linell y lan cyn cyflawni'r gwaith;
- Pan fydd y gwaith wedi gorffen, nid yw uchder y lan yn uwch na'r isaf o'r canlynol:
  - Uchder y lan ar naill ochr y gwaith, ac
  - Uchder y lan cyn cyflawni'r gwaith;
- Mae'r gwaith wedi cysylltu'n sownd â'r lan ar bob pen er mwyn atal erydu y tu nôl i'r gwaith.
- Nid yw'r gwaith ar lan sy'n cynnwys clogwyn o ddaear dros 1 metr o uchder.

## Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith yn golygu defnyddio cerbydau neu beiriannau ag olwynion neu draciau ar wely neu lannau'r brif afon.

## Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

## Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 14: Atgyweirio glannau sydd wedi llithro neu erydu

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Atgyweirio glannau sydd wedi llithro neu erydu.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Trwsio glannau sydd wedi llithro neu erydu.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Ail-alinio sianel afon neu ymwthio i mewn i'r sianel.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 500m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gwaith yn cael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno nad ydynt yn rhywogaeth a warchodir.

### Amodau dylunio

- Nid yw'r gwaith yn effeithio ar fwy na 10 metr o'r lan ar unrhyw adeg.
- Nid yw'r gwaith yn ymwthio i mewn i sianel y brif afon y tu hwnt i linell y lan cyn cynnal y gwaith.
- Pan fydd y gwaith wedi gorffen, nid yw uchder y lan yn uwch na'r isaf o'r canlynol:
  - Uchder y lan ar naill ochr y gwaith, ac
  - Uchder y lan cyn y llithro neu erydu.
- Mae'r gwaith wedi cysylltu'n sownd â'r lan ar bob pen er mwyn atal erydu y tu nôl i'r gwaith.
- Bydd unrhyw trwsio os bydd glan yn llithro yn cael ei wneud gan ddefnyddio deunyddiau sydd wedi suddo o'r lan honno'n unig.

### Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith yn golygu symud deunydd o wely'r brif afon ac eithrio glan sydd wedi llithro.



- Nid yw'r gwaith yn golygu defnyddio cerbyd neu beiriannau ag olwynion neu draciau ar wely neu lannau'r brif afon.
- Mae unrhyw drwsio erydu yn defnyddio deunyddiau o'r un fath â'r rheiny sydd yn y safle perthnasol.

### **Pethau eraill y mae angen i chi wybod**

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 15: Adeileddau cynefin y sianel wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Gosod adeileddau cynefin y sianel wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol (ac eithrio coredau a llwybrau).

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gosod adeileddau malurion coediog

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Creu coredau neu lwybrau.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Ni chynhelir unrhyw waith o fewn 100 metr i:
  - adeilad heb fod yn amaethyddol ar y gorlifdir,
  - adeiledd naturiol arall yng nghynefin y sianel,
  - cerrig neu foncyffion wedi'u gosod yn y brif afon i wella cynefin, neu
  - adeiledd o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.

### Amodau dylunio

- Mae'r adeiledd yn cymryd dim mwy na hanner lled ardal croestoriadol sianel y brif afon a dim mwy nag 20 metr o hyd y brif afon.
- Nid yw unrhyw ran o'r adeiledd yn uwch na 0.3 metr dros lefel gwely'r afon neu 25% o uchder y lan (ac eithrio unrhyw wal neu arglawdd sy'n rhan o'r lan), p'un bynnag yw'r mwyaf.
- Mae'r adeiledd wedi'i wneud o ddeunydd coediog sy'n digwydd yn naturiol ac wedi'i gysylltu'n sownd â gwely'r brif afon, y lan neu'r ddau.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.
- Cyfrifoldeb y perchennog yw arolygu a sicrhau bod yr adeiledd wedi'i angori'n ddiogel drwy gydol y cyfnod mae yn y sianel.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 16: Rafftiau ar gyfer arolygiadau

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Gosod rafftiau ar gyfer arolygiadau.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gosod rafftiau minc.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Ysgraffau wedi'u hangori neu ysgraffau mynediad.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Mae'r rafft yn cael ei gosod dim llai na 100 metr o unrhyw rafft arall.
- Pan fydd y rafft wedi cael ei gosod, nid oes mwy na phedair rafft arall o fewn pellter o un cilometr.
- Ni osodir y rafft o fewn 100 metr i unrhyw adeilad heb fod yn amaethyddol ar y gorlifdir neu adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.

### Amodau dylunio

- Mae dimensiynau'r rafft 1.5 metr x 1 metr x 0.15 metr ar y mwyaf.
- Mae uchder unrhyw flwch cyfarpar a ddefnyddir ar y rafft dim mwy na 0.75 metr.
- Mae'r rafft yn gysylltiedig yn sownd ac yn barhaol â'r lan.

### Amodau amser a dull

- Mae'r rafft yn cael ei gosod am ddim mwy na 12 mis ac yn cael ei thynnu ar unwaith os, o fewn y cyfnod hwnnw, nid oes ei hangen bellach.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Cyfrifoldeb y perchennog yw arolygu a sicrhau bod yr adeiledd wedi'i angori'n ddiogel drwy gydol y cyfnod mae yn y sianel.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 17: Glanhau graean ar gyfer gwelyau silio pysgod

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Glanhau graean ar gyfer gwelyau silio pysgod.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Glanhau ardaloedd silio pysgod.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Unrhyw garthu yn y sianel.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 500m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r gwaith yn digwydd mewn math o gynefin sydd wedi'u cynnwys ar restr a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 neu gan Weinidogion Cymru o dan adran 42 o'r Ddeddf honno, neu o fewn 500 metr i fyny'r afon o gynefin o'r fath.

### Amodau dylunio

- Mae'r gwaith yn ymwneud â dim mwy nag 20m<sup>2</sup> o raean fesul lleoliad, â bwloch o 30 metr o leiaf rhwng lleoliadau.
- Nid yw'r gwaith cael effaith andwyol ar y glannau neu wely sefydledig y brif afon.

### Amodau amser a dull

- Cynhelir y gwaith ym mis Medi neu fis Hydref yn unig mewn unrhyw flwyddyn.
- Cynhelir y gwaith gan ddefnyddio offer llaw yn unig neu beiriannau sy'n cael eu cludo a'u gweithredu gan un unigolyn.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 19: Dyfeisiau llwybr llyswennod

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu dyfeisiau llwybr llyswennod ar adeileddau sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gosod dyfeisiau llwybr llyswennod ar adeileddau sydd eisoes yn bodoli.

### Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:

- Adeiladu adeileddau llwybr llyswennod newydd annibynnol.
- Gosod 'fflap llyswennod' trwy ddrysau llanwol / falfiau fflap sydd eisoes yn bodoli.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r adeiledd sydd eisoes yn bodoli ar afon lanw.

### Amodau dylunio

- Mae'r ddyfais yn gysylltiedig yn barhaol ac yn sownd â'r adeiledd sydd eisoes yn bodoli.
- Nid yw lled y ddyfais yn fwy na 5% o led y brif afon.
- Nid yw'r ddyfais yn ymestyn i fyny'r afon neu i lawr yr afon o'r adeiledd sydd eisoes yn bodoli mwy na'r lleiaf o'r canlynol:
  - 10 metr; neu
  - lled y sianel wedi'i fesur rhwng brig dwy lan y brif afon.

### Amodau amser a dull

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.



Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 20: Rhiciau llwybr pysgod

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu rhiciau llwybr pysgod ar Groniad sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gosod rhic ar gored sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Adeiladu adeileddau newydd annibynnol.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.

### Amodau dylunio

- Nid yw'r gwaith adeiladu'n effeithio ar uniondeb adeileddol y cronriad sydd eisoes yn bodoli.
- Nid yw adeiladu'r rhiciau'n newid lefel y dŵr yn y brif afon gan fwy nag 20cm i fyny'r afon neu i lawr yr afon o'r adeiledd sydd eisoes yn bodoli.
- Mae'r cronriad sydd eisoes yn bodoli ar brif afon mwy na 5 metr o led, wedi'i mesur rhwng brig y ddywy lan.
- Nid yw'r gwaith adeiladu'n cael effaith andwyol ar y glannau neu wely sefydledig y brif afon.
- Mae'r bwllch 0.6 metr o led neu lai.

### Amodau amser a dull

#### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 25: Cloddio pyllau bas a nodweddion gwlyptir bas

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Cloddio pyllau bas a nodweddion gwlyptir bas ar orlifdir.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Cloddio pyllau bas.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:** Cloddio pyllau pysgod.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.

### Amodau dylunio

- Mae ardal y cloddio 0.1 hectar neu lai ac yn digwydd o leiaf 100 metr i ffwrdd o unrhyw gloddio arall ar y gorlifdir.
- Mae'r cloddio 500mm o ddyfnder neu lai ar unrhyw bwynt.
- Lle mae rwbol o'r cloddio'n cael ei ledaenu ar y gorlifdir, mae'r rwbol yn cael ei ledaenu i drwch 100mm neu lai.
- Mae'r cloddio o leiaf 8 metr i ffwrdd o unrhyw adeiledd sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd ac ar yr ochr tua'r tir ar bob glan o'r brif afon.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 27: Adeileddau Iloches bywyd gwyllt ar lannau afonydd

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Adeiladu adeileddau Iloches bywyd gwyllt ar lannau afonydd.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Creu adeileddau ar lannau afonydd i ddarparu Iloches i fywyd gwyllt.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.
- Nid yw'r adeiledd wedi'i leoli o fewn 50 metr i unrhyw adeiledd arall o waith dyn ar y brif afon neu ynddi.
- Nid yw'r adeiledd o fewn 8 metr i adeiledd amddiffyn rhag llifogydd neu waith rheoli afon.

### Amodau dylunio

- Hyd y lan a gloddiwyd wrth adeiladu'r adeiledd yw 1.5 metr neu lai.
- Nid yw uchder yr adeiledd yn fwy nag 1.5 metr neu'n fwy na 75% o uchder y lan, p'un bynnag yw'r lleiaf.
- Nid yw'r adeiledd yn ymwthio y tu hwnt i linell y lan cyn cyflawni'r gwaith.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.

## Esemptiad Gweithgarwch Perygl Llifogydd 28: Gwaith gwella traciau a llwybrau

**Disgrifiad o'r gweithgarwch:** Gwaith gwella traciau a llwybrau.

**Mathau o weithgarwch y gallwch ei gynnal:** Gwella a chynnal traciau a llwybrau sydd eisoes yn bodoli.

**Mathau o weithgarwch ni allwch ei gynnal:**

- Adeiladu llwybr a godwyd newydd.
- Gwella llwybr ar adeiledd amddiffyn rhag llifogydd sydd eisoes yn bodoli ar hyd prif afon.

### Amodau allweddol

Ni ddylech wneud unrhyw beth yn fwy na'r hyn mae'r esemptiad hwn yn caniatáu oherwydd fel arall ni fyddwch wedi'ch esemptio.

### Amodau gofodol

- Nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal mewn prif afon sydd wedi'i dosbarthu â statws morffolegol uchel, neu o fewn 100m i afon o'r fath.
- Nid yw'r gweithgarwch yn cael ei gynnal mewn safleoedd â'r dynodiadau canlynol, neu o fewn radiws 200m i safleoedd o'r fath:
  - Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
  - Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC);
  - Safle Ramsar;
  - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
  - Gwarchodfa natur genedlaethol;
  - Gwarchodfa natur leol.

### Amodau dylunio

- Mae'r gwaith ar drac neu lwybr sydd eisoes yn bodoli.
- Nid yw'r gwaith yn newid llwybr neu led y trac neu lwybr.
- Nid yw'r gwaith yn cynyddu lefel y llwybr gan fwy na 100mm.

### Amodau amser a dull

- Nid yw'r gwaith yn aflonyddu ar wely neu lannau unrhyw brif afon.
- Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau bydd yr holl ddeunyddiau a malurion yn cael eu symud o'r safle.

### Pethau eraill y mae angen i chi wybod

Yn ogystal â chofrestru'r esemptiad hwn, efallai y bydd hefyd angen i chi gydymffurfio â deddfwriaeth arall. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatâd cynllunio – cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol i ddarganfod a oes angen i chi wneud cais.



Gallwch hefyd ddefnyddio'r Map Perygl Llifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lleoliad Prif Afonydd: <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=en>

Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am leoliadau safleoedd wedi'u dynodi, a rhywogaethau a chynefinoedd ar restr Adran 42: <http://www.biodiversitywales.org.uk/>

Nid yw'r esemptiad hwn yn cwmpasu unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu. Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded bwrpasol ar gyfer unrhyw waith dros dro sy'n ofynnol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect.

### **Cyn cofrestru ar gyfer yr esemptiad hwn, rydym yn eich cyngori i ystyried y canlynol:**

- Yr angen am unrhyw waith dros dro i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Os bydd angen i chi ddefnyddio gwaith dros dro (gan gynnwys sgaffaldiau ac argaeau coffr) i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn, cyn cofrestru, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC lleol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.
- Dylai'r holl ddeunydd a gloddiwyd heb ei ail-ddefnyddio ar safle'r gwaith gael ei symud o'r glannau a/neu orlifdir.
- Lleoliad y trac neu lwybr sydd eisoes yn bodoli. Os yw ar hyd amddiffynfeydd rhag llifogydd a godwyd ochr yn ochr â phrif afon, dylech gysylltu â'ch swyddfa CNC leol i drafod a allai fod angen trwydded arbennig.